

CANMLWYDDIANT Y LLENOR

gan JOHN EIRUG DAVIES

'I GENHEDLAETH o Gymry daeth *Y Llenor* yn gyfystyr ag enw Gruffydd' medd T. Robin Chapman yn ei lyfr ar W. J. Gruffydd. Cyfeirio y mae wrth gwrs at *Y Llenor* a anwyd yng ngwanwyn 1922. Ond roedd cyfnodolyn o'r un enw ar werth dros chwarter canrif cyn hynny. Cylchgrawn chwarterol dan olygyddiaeth Owen M. Edwards oedd hwnnw, ac fe'i cyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab yn ddi-dor o Ionawr 1895 tan Hydref 1898, gyda 96 tudalen o brint gweddol fân ynghyd â lluniau ymhob un o'r un rhifyn ar bymtheg. Yr oedd 1995 felly yn ganmlwyddiant ymddangosiad y rhifynnau cyntaf.

Amcan y cylchgrawn yng ngeiriau'r golygydd oedd 'magu meddylgarwch yn mechgyn a genethod mwyaf deallgar Cymru, a thynnu eu sylw at rai o agweddau pwysig hanes a meddwl y byd,' nod go uchelgeisiol. Ei arwyddair oedd 'I wybod doethineb ac addysg'.

O ystyried y gyfres ar ei hyd, mae dros hanner yr erthyglau yn ymwneud â Chymru, a'r mwyafrif o'r rhain yn trafod beirdd a llenorion, yn eu plith Ieuan o Lŷn, Owen Gruffydd o Lanystumdwy, Gwilym Marles, Dewi Wyn o Eifion, Huw Myfyr, Robert Owen (cysylltiedig ag Abermaw), Islwyn, Glasynys a Robert Jones Rhos-lan. Ceir cymaint â saith o ysgrifau mewn gwahanol rifynnau ar Dewi Wyn, detholiad o waith Islwyn, yn

rhyddiaith a barddoniaeth, yw Llyfr XI ar ei hyd; gwaith barddonol Glasynys yw Llyfrau XIII a XIV a gwaith Robert Jones yw dau lyfr olaf y gyfres. Mae'r pump llyfr hyn yn gwahaniaethu am fod pob un ohonyn nhw yn canolbwyntio ar waith un llenor; mae amrywiaeth o destunau yn y lleill. Ymhlith yr ysgrifau eraill ar lenyddiaeth Gymraeg mae 'Y Llenor Cymreig' (v) sy'n agor trwy ofyn, 'Pwy yw y llenor? Beth sydd yn rhoddi hawl i'r enw?', 'Agwedd Bresennol Llenyddiaeth Gymreig' (vi), sy'n mynnu, 'pe buasai yr un ymdrech yn cael ei wneyd yng Nghymru tuag at werthu llyfrau a sydd yn cael ei wneyd i werthu te, ni fuasai raid i'r un awdur teilwng betruso cyhoeddi llyfr yn Gymraeg heb gael tal am lafur,' ac 'Ein Cerddi Arwrol' (ii) lle honnir 'mai caniadau telynegol, tyner ac awenyddol nid pryddestau ac awdlau a werthfawrogrir gan bobl Cymru'. Os gwir yr honiad hwn am chwaeth y Cymry roedd y 'caniadau telynegol' a gynhwyswyd, 'Y Gwanwyn' Robert Bryan (vi), 'Gadael Tir' Bryfdir (vii), 'Haul yr Hwyr' Ben Davies, er enghraifft, yn debycach o fod at ddant darllenwyr *Y Llenor* na'r cerddi maith ar destunau crefyddol, yn eu plith 'Esaiah' (iv), 'Hunan-Aberth' (vi) — awdl gan Tafolog — 'Sancteiddrwydd' (vii), 'Fy Nuw, Fy Nuw, Paham y'm Gadewaist?' (ix), 'Cristnogion

Armenia' (x), a 'Duw a Edrych Iddo'i Hun' (xii). Pwy ymysg bechgyn a genethod deallgar Cymru a ddarllenai'r rhain ysgwn i?

Os mai'r llenorion sy'n cael y lle amlycaf y mae sawl cyfraniad yn ymwneud ag agweddau ar hanes Cymru. Ceir erthyglau ar Llywelyn ap Gruffudd (iv), Owain Glyn Dŵr (ix) a George Jeffreys (x), a dwy ar hanes crefydd — 'Diwygiadau Beddgelert' (i), yn seiliedig ar waith un a fu'n llygad-dyst i'r deffroad crefyddol ym mhlwyf Beddgelert yn 1817-18, a 'Pregethwyr y Diwygiad' (iii) sy'n cyfeirio at rai o hoelion wyth y pulpud yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hanesiol hefyd yw gogwydd 'Yr Iaith Gymraeg' (vi) lle mae W. Llewelyn Williams yn olrhain hynt a helynt yr iaith o gyfnod y Tuduriaid ymlaen, a 'Hen Fesurau Tir Cymru' (vii) gan A. N. Palmer. Golwg obeithiol ar y Gymry gyfoes yw 'Cynnydd y Cymro' (x) a phriodolir y cynnydd honedig mewn amryfal feysydd i ddatblygiad addysg. Ac addysg yw pwnc erthygl yn Llyfr VIII sy'n cloriannu adroddiad 1847 a ddaethpwyd i'w adnabod fel 'Brad y Llyfrau Gleision', ac Adroddiad Pwyllgor Arglwydd Aberdâr 1881 a anogai sefydlu ysgolion canolraddol a phrifysgol. Yn 'Yr Ymdrech am y Brifysgol' (ix) gorfoleddir yn llwyddiant yr ymgyrch honno.

Yn annisgwyl efallai o gofio am ysafr golygydd i deithio, un ysgrif yn unig sydd ar grwydro Cymru, a honno, 'Atgofion Gwibdaith' (x) gan Islwyn y bardd yn adrodd hanes ei daith mewn trên trwy rannau o'r Gogledd.

Yn unol â'r amcan o edrych ar 'hanes a meddwl' y byd y mae'r *Llenor* yn mentro y tu hwnt i Gymru. Yn aml i ddarlunio gwledydd tramor, fel yn 'Yma ac Acw yn Asia' (i), 'Hen Wlad yr Aiff' (ii), 'Norwy a Sweden' (iv), 'Dinasocdd Distaw Yucatan' (viii), 'I Fyny'r Rhein' (viii) a 'Gwlad Canol Nos' (x); fel rheol ni ddatgelir pwy yw'r teithwyr. Neu wedyn i drafod cyfraniad dynion o fri — Martin Luther (ii) a John Calvin (iv) i gyd crefydd; Machiavelli (v) a Tadeusz Kosciuszko (v), gwladgarwyr Pwylaidd, i athroniaeth wleidyddol; a Mozart i gerddoriaeth. Yn wir rhoddir tair ysgrif i Mozart (vi, viii a xii), 'y mwyafrif swynol ei ddawn o holl feibion cerdd' yn ôl Robert Bryan, awdur y drydedd o'r tair. Nid oes sôn am lenorion y tu allan i wledydd Prydain ond y mae erthygl ar Robert Burns (viii), ac o 'holl feirdd gwledydd eraill' meddir, 'nid oes odid fardd mor debyg i'r beirdd Cymreig â Burns'; a thair ar lenyddiaeth Lloegr — 'Gem Llenyddiaeth Lloegr' (iv), sef drama Shakespeare 'Macbeth', 'Llenyddiaeth y Saeson' (vii) sy'n rhannu hanes eu llen yn dri chyfnod — cyfnod y rhamantau 1100-1500, cyfnod y ddrama 1500-1750, a chyfnod darlunio natur 1750-1895; a 'Llais Na Ddistewir' (ix), y llais hwnnw'n eiddo John Milton.

Nid bywd llwy yw cynnwys *Y Llenor* — mae'r testunau a nodwyd eisoes yn awgrymu hynny. Felly hefyd y rhelyw o'r erthyglau, rhai ohonyn nhw megis 'Sylfeini Cymdeithas' (ii), 'Caethwasiaeth' (iii), 'Artheithio' (v), 'Arian' (ix) ac 'Addoli Mair' (ix) yn cymryd golwg athronyddol ar y pwnc dan sylw yn ogystal â chyfleu gwybodaeth fanwl; eraill yn manylu ar ryfeddodau natur, yn wyddonol ffeithiol yn 'Bywyd y Sêr' (iii), yn bersonol ysgrifol yn 'Blodau'r Gwanwyn' (x), a 'Llygad i Weled Anian' (vi), yr olaf gan Anthropos. Ond at ei gilydd traethodol yw arddull erthyglau *Y Llenor*.

I hwyluso'r darllen arferiad cyson yw'r defnydd o is-deitlau i baragraffau, ac i dorri ymhellach ar undonedd y tudalennau mae amrywiaeth o luniau, deuddeg, er enghraifft, yn yr erthygl deg tudalen ar hugain ar ddiwygiad Beddgelert.

Parhad ar waelod tudalen 29

PWY YW'R ARTIST?



Maer'r print hwn o Gastell Caernarfon yn mesur tua 29" (73cm) ar draws a 18" (46cm) i lawr. Ar y gwaelod mae'r geiriau 'Caernarfon Castle (From Coed Helen Ferry)' ond dim enw arlunydd nac argraffwr. Os oes unrhyw un yn adnabod gwaith yr artist fe fyddem yn falch o gael gwybod.